# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Ebrill 2017

Amser: 14.00 - 16.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3917

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Shan Morgan, Llywodraeth Cymru<br>David Richards, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Ben Robertson<br>Nick Selwyn |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.
1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Adolygiad o Lywodraethiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (20 Mawrth 2017)

## 3 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2015-16

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol; David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu; a Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru ynghylch Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2015-16.
3.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n:

- Ystyried a yw'r trothwy o £25k ar gyfer tendro a chaffael yn dal i fod yn drothwy priodol, ac ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'i chasgliadau;
- Darparu nodyn ar y safle de minimus o ran graddfa'r cysylltiadau sydd wedi'u gosod i'w tendro, a nodi a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y safle hon yn cynnig gwerth am arian;
- Darparu nodyn gyda'r gwerth a'r modd y mae'r grantiau a ddyfarnwyd wedi cael eu rhannu ar gyfer iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn 2015-16;
- Darparu dadansoddiad, gan gynnwys unrhyw arbedion, a wnaed o ran costau gweinyddol yn y Ganolfan Ragoriaeth yn 2015-16; a
- Darparu'r telerau ar gyfer diswyddo i staff a effeithir o ganlyniad i'r ffaith bod Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben yn raddol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2015-16: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.
5.2 Cytunodd y Pwyllgor ar gynnig Llywodraeth Cymru i alinio adroddiadau yn y dyfodol gyda chyhoeddi'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

## 6 Trosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor friff ar adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ei adroddiad diweddaraf ar drosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach.
6.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i'r mater hwn.

## 7 Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac adnewyddiad: Ystyried ymateb y Pwyllgor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

7.1 Trafododd yr Aelodau y llythyr drafft, a chytunwyd arno, yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 8 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Trafod y materion allweddol

8.1 Trafododd yr Aelodau y papur ar y materion allweddol.